GIG CYMRU NHS WALES | Cyd-bwyllgor Comisiynu Joint Commissioning Committee

**Cofnodion wedi'u cadarnhau o**
**Gyfarfod Eithriadol Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru**
**a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar**
**Ddydd Mawrth 23 Mawrth 2026 am 09:30yb**
ar Microsoft Teams

| | | |
|---|---|---|
| **Aelodau:** | | |
| Ian Green (Cadeirydd) | (IG) | Cadeirydd Annibynnol, Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru |
| Susan Elsmore | (SE) | Aelod Lleyg |
| Abigail Harris | (AH) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| Nicola Prygodzicz | (NP) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| Suzanne Rankin | (SR) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Carol Shillabeer | (CS) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Hayley Thomas | (HT) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| Paul Worthington | (PW) | Aelod Lleyg |
| Nia Roberts | (NR) | Aelod Lleyg |
| **Dirprwyon:** | | |
| Lisa Gosling | (LG) | Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a’r Gweithlu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| **Aelod Cyswllt:** | | |
| Huw George | (HG) | Prif Gomisiynydd Dros Dro |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Helen Ashcroft | (HA) | Dirprwy Gyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Arbenigol |
| Carole Bell | (CB) | Cyfarwyddwr Nyrsio ac Ansawdd |
| Alex Crawford | (AC) | Dirprwy Gyfarwyddwr Cynllunio Corfforaethol a’r Swyddfa Rheoli Prosiectau |
| Aaron Fowler | (AF) | Ysgrifennydd y Pwyllgor a Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| Sue O'Leary | (SO) | Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau sy'n Agored i Niwed |
| Gavin Owen | (GO) | Dirprwy Gyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Ambiwlans ac 111 (Dros Dro) |
| Stacey Taylor | (ST) | Dirprwy Brif Gomisiynydd a Chyfarwyddwr Cyllid a Gwerth |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Iolo Doull | (ID) | Cyfarwyddwr Meddygol |
| Georgina Galletly | (GG) | Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cynllunio a Strategaeth |
| Shameem Nawaz | (SN) | Aelod Lleyg |
| Philip Kloer | (PK) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Paul Mears | (PM) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| Ross Whitehead | (RW) | Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Ambiwlans ac 111 |
| Melanie Wilkey | (MW) | Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol |

| Cyfeirnod Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | **1. Materion Rhagarweiniol** |
| JCC25/154 | **Croeso a Chyflwyniadau**<br>Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r pwyllgorwyr eraill a oedd yn bresennol i gyfarfod eithriadol o'r Cyd-bwyllgor Comisiynu, a gynhaliwyd yn gyhoeddus, a gwnaed cyflwyniadau. Nodwyd bod cworwm wedi'i gyflawni. |
| JCC25/155 | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br>Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb fel yr uchod. |
| JCC25/156 | **Datganiadau o Fuddiant**<br>Ni nodwyd unrhyw Ddatganiadau Buddiannau ychwanegol. |
| | **2. Cymeradwyo Cynllun Blynyddol** |
| JCC25/157 | **Cynllun Blynyddol 2026–27**<br>Cafwyd adroddiad a oedd yn cyflwyno Cynllun Blynyddol 2026–27 (y Cynllun) i gael ei gymeradwyo, cyn y byddai'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Nododd y Cadeirydd fod sawl fersiwn o'r cynllun drafft wedi'i drafod dros y misoedd diwethaf, gan gynnwys mewn sesiynau datblygu'r Cyd-bwyllgor Comisiynu (JC) ac mewn cyfarfodydd mewn-pwyllgor. Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i HG roi trosolwg o'r Cynllun ac i gadarnhau unrhyw newidiadau sylweddol a wnaed i'r drafftiau a oedd eisoes wedi'u rhannu ag Aelodau'r Cyd-bwyllgor. |
| JCC25/158 | Eglurodd HG bod Llywodraeth Cymru (LlC) wedi gofyn am Gynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd llawn i ddechrau, ond cafwyd eglurhad wedyn mai cynllun blwyddyn wedi'i osod o fewn cyd-destun tair blynedd a ddylai gael ei gyflwyno. Fe wnaeth hyn ddatrys y pryderon llywodraethu blaenorol ynghylch ymrwymo i gynlluniau ar gyfer sawl blwyddyn pan mai dim ond cynlluniau blwyddyn yr oedd Byrddau Iechyd yn eu cyflwyno. Cynhaliwyd cyfarfod craffu gyda Llywodraeth Cymru yr wythnos flaenorol, gan drafod cydweithio a'r heriau sylweddol sy'n wynebu comisiynwyr a darparwyr. Ar y cyfan, nid oedd y blaenoriaethau wedi newid. Dywedwyd y bu'r flwyddyn hon yn gynhyrchiol o ran ymgysylltu, ond cadarnhawyd y bydd angen i CBCGC roi diffiniadau clir o gwmpas a chyflymder yr hyn a gyflawnir yn ystod Chwarter 1 2026/27. |
| JCC25/159 | Rhoddodd AC drosolwg o'r blaenoriaethau strategol sy'n cael sylw yn y Cynllun ac fe amlygodd y tri maes allweddol, sef astudiaethau strategol manwl, adolygiadau o lwybrau a rheoli atgyfeiriadau, a fyddai'n cael eu cynnal yn ystod 2026/27.<br><br>Cydnabuwyd bod angen gwneud mwy yn 2026/27 a thu hwnt i gryfhau'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg ac i sicrhau bod y broses Asesu Effaith ar Ansawdd yn cael ei datblygu'n gynharach er mwyn llywio datblygiad cynnar y cynllun. Roedd yr Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd yn tynnu sylw at rai effeithiau negyddol, a oedd yn adlewyrchu penderfyniadau anodd o fewn adnoddau cyfyngedig. |
| JCC25/160 | Rhoddodd ST drosolwg ariannol ac eglurodd fod y flwyddyn wedi dechrau gyda diffyg sylfaenol sylweddol a oedd wedi'i leihau trwy broses gadarn a thrwyadl, a oedd yn cynnwys aelodau CBCGC a Byrddau Iechyd, a hyn wedi helpu i symud y Cyd-bwyllgor tuag at sylfaen ariannol fwy cynaliadwy. Roedd y cynnydd mewn gweithgarwch (yn enwedig mewn gwasanaethau arbenigol ac NHS England) yn parhau i yrru pwysau costau, ac roedd y Cynllun yn cydnabod hyn. Mae'r llythyrau dyrannu yn amlinellu bod cyllid wedi ei basio ymlaen (nad yw'n gyflog) o 1.1% wedi'i drosglwyddo'n uniongyrchol i ddarparwyr. Mae'r CBCGC hefyd yn cydnabod meysydd twf sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ond byddai'n disgwyl i ddarparwyr gyflawni arbedion effeithlonrwydd o 2%, sy'n cyfateb i £12 miliwn. Byddai |

| Cyfeirnod Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | comisiynwyr gyda'i gilydd yn cyfrannu codiad o £16.2 miliwn, wedi'i rannu ar draws y saith Bwrdd Iechyd. Cydnabuwyd bod risg gynhenid i’r Cynllun, a nododd yr Aelodau y byddai'r gwaith yn parhau gyda Byrddau Iechyd yn ystod 2026/27 i liniaru risgiau comisiynu ac i nodi cyfleoedd pellach i wneud arbedion. |
| JCC25/161 | O ystyried y risgiau sylweddol a nodwyd yn y cynllun, holodd IG beth oedd angen ei wneud yn wahanol yn ystod 2026/27 er mwyn sicrhau cyflawniad ac i osgoi’r problemau a welwyd yn ystod 2025/26.<br><br>Ymrwymodd HG i gryfhau goruchwyliaeth ariannol ac i gynllunio rhaglenni sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau gyda mwy o eglurder o ran arweinyddiaeth ac atebolrwydd. Bydd pob rhaglen flaenoriaeth yn datblygu cerrig milltir amlwg a chynlluniau cyflawni gyda chefnogaeth arweinyddiaeth y Prif Weithredwr. Gwers allweddol a ddysgwyd yn 2025/26 oedd yr angen am fewnbwn a chefnogaeth wych gan ddarparwyr. Nodwyd y byddai hyn yn cael ei ddatrys trwy ddatblygu strwythur grŵp comisiynu cydweithredol diwygiedig gyda mwy o ymgysylltiad â darparwyr. Byddai’r wybodaeth a geir o'r rhyngweithiadau hyn yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn llywio penderfyniadau’r Cyd-bwyllgor. |
| JCC25/162 | Rhoddodd NR adborth cadarnhaol ar strwythur y Cynllun ond holodd a oedd y cynllun wedi rhoi digon o ystyriaeth i’r Gymraeg. Hefyd, awgrymodd NR y gallai'r CBCGC ddatblygu cyfres o gerrig milltir a phyrth penderfyniadau a allai gywiro’r llwybr ar ganol blwyddyn pe bai ymadawiadau neu risgiau yn dod i'r amlwg.<br><br>Cadarnhaodd AC y byddai ystyriaethau ynghylch y Gymraeg yn cael eu hadolygu a'u cryfhau ar ôl cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.<br><br>Fe wnaeth SE gydnabod gwaith a wnaed i ddatblygu'r Cynllun, a chroesawodd y sylw cryfach a roddwyd i ansawdd a risg glinigol o fewn y ddogfen. Fodd bynnag, â hithau’n Gadeirydd yr Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau, mynegodd SE ei phryder parhaus am fregusrwydd llwybrau risg uchel.<br><br>Dywedodd SO fod angen i drawsnewid yn ystod Chwarter 1 ddiffinio cwmpas adolygiadau strategol gyda darparwyr, a phwysleisiodd y cysylltiad oedd yn bodoli rhwng trawsnewid a chyflawni effeithlonrwydd o 2%. Ymrwymodd SO, y Cyfarwyddwr Comisiynu, i gefnogi'r gwaith o wireddu'r arbedion a'r effeithlonrwydd.<br><br>Mynegodd SR bryder ynghylch y fethodoleg 2% ar gyfer arbedion darparwyr, a holodd a oedd y risg wedi'i throsglwyddo’n gontractiol ynteu wedi’i chadw o fewn CBCGC.<br><br>Adleisiodd PW y pryderon ynghylch y risg comisiynydd o £16.2 miliwn a’r arbedion darparwyr o £12 miliwn, a holodd a allai CBCGC gyflawni’r holl adolygiadau manwl sydd yn y Cynllun, gan gydnabod y byddai angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn glir ar ei feysydd blaenoriaeth. |
| JCC25/163 | Eglurodd ST mai’r darparwyr fyddai â’r targed arbedion effeithlonrwydd o 2%, a byddai trafodaethau cadarn yn parhau er mwyn nodi a chyflawni cynlluniau i fodloni'r gofyniad hwn. Ailadroddodd ST y byddai CBCGC yn cydweithio â darparwyr i reoli effeithlonrwydd. Eglurodd ST eu bod wedi nodi bron i hanner yr arbedion angenrheidiol, ond roedd gwaith pellach wedi'i drefnu ar gyfer dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf i ganfod cyfleoedd pellach. Cytunwyd y byddai'r gwaith ar effeithlonrwydd yn cael ei drafod yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid a drefnwyd ar gyfer Ebrill 2026. Mewn trafodaeth bellach, |

| Cyfeirnod Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | dywedwyd bod y comisiynwyr yn cadw risgiau ariannol trwy fecanweithiau contractio er mai'r darparwyr sydd yn dal y risgiau effeithlonrwydd, ac roedd gwaith ar y gweill i ddatblygu proffiliau lliniaru risg a chynlluniau cynilo cydweithredol, gan gynnwys lleihau dyblygu a gwariant sector annibynnol heb ei gynllunio.<br><br>Ymatebodd SR ac eglurodd y byddai'r arbedion darparwyr o £12 miliwn yn risg cynaliadwyedd ac ansawdd a diogelwch, nid risg ariannol yn unig. |
| JCC25/164 | Dywedodd MR fod y broses uwchgyfeirio wedi bod yn rhy araf eleni ac roedd angen cryfhau'r diwylliant 'dim syrpreisys' gyda darparwyr.<br><br>Croesawodd AH uchelgeisiau comisiynu cenedlaethol CBCGC (e.e. gwasanaethau hosbis) ond rhybuddiodd am yr angen i gydbwyso gafael a rheolaeth dros berfformiad, a chydbwyso trawsnewid gyda'r angen am fethodoleg ddiffiniedig a chapasiti cenedlaethol o fewn rhwydweithiau cenedlaethol.<br>Cyflwynodd HT bersbectif Bwrdd Iechyd sydd â chynllun na ellir ei gymeradwyo, a gofynnodd am eglurhad ar sut y byddai cymeradwyo cynllun CBCGC yn eistedd o fewn cynllun diffyg Bwrdd Iechyd. Ychwanegodd HT y byddai hefyd yn croesawu adolygiadau annibynnol o feysydd comisiynu penodol.<br><br>Roedd NP wedi briffio ei Bwrdd bod y £16.2 miliwn yn risg i'w liniaru ac nid yn alwad wedi ei chadarnhau ar gyllidebau'r Byrddau Iechyd. Cadarnhaodd NP fod angen mwy o graffu ar y meysydd twf sy'n dod i'r amlwg, yn hytrach na'u derbyn flwyddyn ar ôl blwyddyn.<br><br>Awgrymodd CS, pe bai'r £16.2 miliwn yn cael ei drin fel pwysau cost, y byddai'n cael ei gynnwys yn y cyfrifiadau yn hytrach na'i ystyried yn waith parhaus tuag at fantoli'r gyllideb. |
| JCC25/165 | Trafododd yr aelodau pa mor bwysig yw cael rhaglen waith fanwl â blaenoriaethau er mwyn cyflawni adolygiadau strategol ac amcanion trawsnewid y cynllun, gan ganolbwyntio ar feysydd megis cardiaidd, arennol a rheoli meddyginiaethau, a phwysleisiwyd yr angen am weithredu cynnar, atebolrwydd clir, a chydweithio i gyflawni arbedion a gwelliannau gwasanaeth.<br><br>Tynnodd yr aelodau sylw at yr angen i gomisiynwyr a darparwyr gydweithio, gan ddefnyddio rhwydweithiau cenedlaethol ac adnoddau allanol lle bo hynny'n bosibl, a sicrhau bod penderfyniadau am newidiadau neu ostyngiadau gwasanaeth yn cael eu rheoli ar y cyd drwy'r pwyllgor. |
| JCC25/166 | Tynnodd CBCGC sylw at yr angen am ddull cyson, tryloyw o ddisgrifio a chyflwyno'r sefyllfa ariannol o fewn y Cynllun i Fyrddau Iechyd. Roedd yr Aelodau yn cydnabod yr heriau llywodraethu o gymeradwyo cynllun gyda sefyllfa ariannol anghytbwys a thrafododd y Cyd-bwyllgor a ddylid cymeradwyo neu gefnogi'r cynllun yng nghyd-destun arbedion heb eu nodi.<br><br>Roedd un opsiwn a drafodwyd yn ystyried cymeradwyo'r cynllun a chydnabod hefyd y risg o £16.2 miliwn sydd angen ei liniaru ymhellach. Gallai cefnogi'r cynllun heb gymeradwyaeth greu anawsterau wrth ei gyflwyno'n genedlaethol. Nodwyd bod yn rhaid i CBCGC gymeradwyo cyllideb o 1 Ebrill 2026 er mwyn caniatáu i fecanweithiau cytundebol gyda'r Byrddau Iechyd weithredu. Cynigiwyd amrywiaeth o opsiynau o ran y geiriad y cytunir arno, ond dewisodd yr aelodau gymeradwyo'r cynllun mewn egwyddor yn amodol ar ganiatáu cyfnod byr i fireinio'r geiriad ynghylch y driniaeth o'r risg o £16.2 miliwn ar gyfer cysondeb ar |

| Cyfeirnod Cofnod | Eitem Agenda |
|---|---|
| | draws Byrddau Iechyd. Roedd ymrwymiad i ymgysylltu â'r holl Aelodau Lleyg a chynrychiolwyr Byrddau Iechyd yn y broses o wneud penderfyniadau, gyda'r nod o ddod i gasgliad o fewn y 48 awr ganlynol.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu i:<br>• **Gymeradwyo**'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2026–27 mewn egwyddor, yn amodol ar drafodaeth frys bellach a chonsensws am y geiriad ynghylch y diffyg o £16.2 miliwn. |
| JCC25/167 | **Nodyn ar ôl y cyfarfod**<br>Yn dilyn y cyfarfod, cymeradwyodd mwyafrif Aelodau'r Cyd-bwyllgor y geiriad canlynol i gymeradwyo Cynllun Blynyddol CBCGC 2026-27:<br><br>Penderfynodd Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru:<br>• **GYMERADWYO** cynllun 2026/27 yn amodol ar y gofyniad i'r CBC weithio ar y cyd â Byrddau Iechyd Lleol i ddatblygu blaenoriaethau 2026/27 ar frys er mwyn gwneud y mwyaf o arbedion effeithiolrwydd sy'n gwella costau ac arbedion i wella'r gofyniad ariannol ychwanegol o £16.2m mewn blwyddyn.<br><br>Cymerwyd Cam Gweithredu gan y Cadeirydd ar 30 Mawrth 2026 i gymeradwyo'r Cynllun ar sail yr argymhelliad uchod. Bydd Cam Gweithredu'r Cadeirydd yn cael ei adrodd i gyfarfod y Cyd-bwyllgor ym mis Mai 2026. |
| | **3. Busnes i Gloi** |
| JCC25/168 | **Unrhyw Fusnes Arall**<br>Ni thrafodwyd unrhyw fusnes ychwanegol. |
| JCC25/169 | **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**<br>Roedd y cyfarfod arferol nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 26 Mai 2026. |